

Perchennog/Meddiannydd

**Gofynnwch Am/Please Ask For:** Toby Olden

**Ffôn/Telephone:** Dd/B

**Fy Nghyf/My Ref:**  
IF259/TO

**Eich Cyf/Your Ref:**

**Dyddiad/Date:**  
12 Awst 2025

Annwyl Berchennog/Feddiannydd

**Glyn-coch – Lôn y Cefn**

**Newidiadau i gyfyngiadau Dim Stopio ar Farciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' a llinellau melyn dwbl**

Mae'r Cyngor yn cynnig newid y cyfyngiadau Dim Stopio ar farciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' presennol a gwneud newidiadau i'r llinellau melyn dwbl ar Lôn y Cefn yn rhan o waith datblygu'r ysgol newydd ar gyfer Hydref 2026.

Nod cyfyngiadau Dim Stopio ar farciau 'Ysgol Cadwch yn Glir' yw atal parcio rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener er mwyn sicrhau diogelwch ar y ffyrdd wrth y fynedfa newydd i'r ysgol ar amseroedd gollwng a chasglu. Mae angen newidiadau i'r cyfyngiadau gwahardd aros ar unrhyw adeg (llinellau melyn dwbl) hefyd yn rhan o waith datblygu'r ysgol newydd gyda chyfyngiadau Dim Llwytho rhwng 8am a 9.30am a 2.30pm a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a hynny i atal tagfeydd traffig ger yr ysgol ar Lôn y Cefn.

Mae manylion y cynigion i'w gweld yn narlun TM25/319/IC sydd wedi'i gynnwys â'r llythyr yma. Hefyd, mae modd eu gweld ar ein gwefan [www.rctcbc.gov.uk/traffig](http://www.rctcbc.gov.uk/traffig).

Rydw i wedi amgáu ffurflen ymateb ynghyd ag amlen barod er hwylustod i chi. Fel arall, mae croeso i chi e-bostio [gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk](mailto:gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk). Byddwch cystal ag anfon eich sylwadau erbyn 02 Medi 2025.

Os na fyddwch chi wedi cyflwyno ymateb erbyn hynny, bydda i'n ei chymryd hi'n ganiataol nad ydych chi'n gwrthwynebu'r cynigion.

**Prifffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth**  
**Highways, Streetcare and Transportation**  
Llawr 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH  
Floor 2, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Stephen Williams BSc(hons)MBA, GDipLaw, PGDipLegalPractice, MCI0B**  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Prifffyrdd, Gofal y Strydoedd a Thrafnidiaeth | Director for Highways, Streetcare and Transportation Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.  
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



**MAE EICH DATA O BWYS** [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)  
**YOUR DATA MATTERS** [www.rctcbc.gov.uk/dataprotection](http://www.rctcbc.gov.uk/dataprotection)



Fydd y Cyngor ddim yn ymateb yn ffurfiol i'ch sylwadau ar hyn o bryd. Serch hynny, bydd eich sylwadau yn llywio'r dyluniad cyn cam nesaf y prosiect, sef Hysbysiad Cyhoeddus.

Rydw i'n gobeithio y bydd yr uchod o gymorth, ond pe hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â mi gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod. Fel arall, pe hoffech chi drafod y materion yma dros y ffôn, e-bostiwch **[gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk](mailto:gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk)** i drefnu galwad.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'T. J. Olden'.

Toby Olden  
Uned Rheoli Traffig | Traffic Management